# Gwaith Grŵp

## Ffurfio grŵp

Os byddwch chi ac eraill yn dod at eich gilydd bydd gennych chi fwy o lais.

Mae hynny'n gwneud creu newid yn haws.

Efallai bod gennych chi grŵp yn barod.

Mae'r cwestiynau yma yn eich helpu i feddwl am sut gallwch chi wneud i'ch grŵp weithio'n dda.

## Cwestiynau i feddwl amdanyn nhw



1. Oes angen mwy o bobl? Sut gallwch chi berswadio mwy i ymuno?



2. Pryd a ble gallech chi gwrdd?



3. Beth rydych chi eisiau newid?



4. Pwy allai eich helpu chi?



5. Beth yw enw eich grŵp?

# Gwiriad Llesiant

## Iach, Hapus, Diogel

Bydd eich grŵp yn gweithio orau os bydd pawb yn hapus. Defnyddiwch y rhestr yma i'ch helpu.

| | |
|---|---|
|  | 1. **Cefnogaeth.** Oes gan eich grŵp oedolyn i'ch cefnogi os bydd angen? |
|  | 2. **Mewngofnodi.** Rhowch gyfle ar ddechrau'r cyfarfod i bawb ddweud sut maen nhw'n teimlo. |
|  | 3. **Gwrando.** Gallech chi bleidleisio dros benderfyniadau, fel bod pawb yn gallu rhoi barn. |
|   | 4. **Cofnodi.** Gwnewch restr o'r pethau rydych chi'n penderfynu mewn cyfarfodydd. |

| | |
|---|---|
|  | **5. Dathlu.** Teimlwch yn falch o'r pethau rydych chi'n cyflawni. Rhannwch nhw ag eraill trwy arddangosiadau neu gyflwyniadau. |

Awgrym Gwych: Edrychwch ar ein fideos o grwpiau.